

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Barddoniaeth blwyddyn 7-9 - Y Stryd

### BEIRNIADAETH IFOR AP GLYN

Dim ond dwy gerdd a ddaeth i law - ond diolch i'r ddau fardd am fentro. Trwy gyd-ddigwyddiad (neu efallai mai'r un athro/athrawes oedd wedi eu hannog i gystadlu) roedd y ddau wedi dehongli'r testun mewn ffordd ddigon tebyg, sef stryd o atgofion, (neu yng ngeiriau *Monty*, 'y stryd hon yw taith fy mywyd').

Dechreuwn ni felly, hefo *Monty*.

Pedair pennill a gafwyd ganddo a rheini wedi'u mydryddu'n eitha rheolaidd gyda tri churiad yn y rhan fwyaf o'r llinellau (nes bod hi'n taro'n chwithig pan mae'n taflu ambell linell hirach i mewn. Byddwn i'n ei gynghori i naill ai gadw at yr un patrwm rhyddmig drwy'r gerdd i gyd, neu amrywio'r rhyddm yn amlach.)

Doeddwn i ddim yn deall ergyd y cwpled agoriadol, 'Gwirion yw'r stryd hon, / gwatwar ar ei orau,' ond wedyn eglura mai 'taith lawr lôn y cof' yw hon. Deallwn yn ddiweddarach bod hi'n 'nosi ar y stryd' a marwolaeth yn bygwth, ac wrth edrych nôl, tair golygfa o blentyndod cynnar y bardd a gynigir i ni - efallai byddai cynnig mwy o amrediad amser wedi bod yn syniad? Mae *Monty* yn gor-esbonio weithiau, ('Dyma'r atgof cyntaf...'; 'yr atgof nesaf yw fy ffefryn' ac yn y blaen) yn hytrach na chanu'n fwy cynnil, ond gall greu delweddau effeithiol hefyd o'i nain 'mewn gwisg carw' adeg y Nadolig, ac 'eistedd yn y blodau enfys'.

*Pupur*: Canu'n benrydd a wna *Pupur* ac er ei fod yntau hefyd 'ar daith, / hyd stryd atgofion' mae'i ymdriniaeth yn fwy uchelgeisiol wrth iddo gyflwyno'r syniad fod dwy lôn bosib drwy'r atgofion, 'stryd o gysgod, neu stryd o olau'. Mae'n cychwyn ar drywydd ychydig yn wahanol serch hynny gan awgrymu y gall atgofion diflannu 'fel ffrindiau yn ymadael' - syniad hyfryd a heriol, ond nid yw'n cael ei ddatblygu ymhellach. Yna, mae'n newid cywair yn annisgwyl wrth gyfeirio at '(d)dyddiau hwyl a sbri, / a seren y sioe yw - fi!' cyn cyflwyno'r prif syniad, fod dwy ffordd o ymdrin â'n hatgofion - dewis rhai i'n llonni neu'r rhai fydd yn ein tynnu i lawr. 'Yr hunllef sy'n galw' yn achos *Pupur* ac mae gweddill y gerdd yn hynod effeithiol, er na chawn wybod beth oedd achos y 'llygaid arna'i o bob cyfeiriad', na'r 'newyddion drwg' a'r 'amseroedd sbeitlyd' - ond rhannwn eu brath yr un fath. Hoffais y clo cadarnhaol, a'i anogaeth inni '(d)derbyn y presennol fel y mae, / yn berffaith amherffaith' - llinell hyfryd.

## **EISTEDDFOD CAERDYDD 2023**

Pwy sy'n mynd â hi felly? Monty a'i fydryddiaeth sicr, ynteu Pupur a'i ganu mwy beiddgar? Mae rhagoriaethau gwahanol gan y ddau - ond mae yna le iddynt hefyd fireinio'u cerddi ymhellach. Mae talent gan y ddau heb os, ac er mwyn eu hannog i'w ddatblygu ymhellach, ni welaf ddiben gwahaniaethu rhyngddynt, ac felly rhannaf y wobr gyntaf rhwng y ddau.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Telyneg - Llogi

BEIRNIADAETH IFOR AP GLYN

Mae'r gair 'telyneg' yn dyddio nôl i 1846 ac yn gyfieithiad campus o'r term Saesneg 'lyric'; sydd yn ei dro yn dod o'r Roeg, sef cerdd i'w chanu i gyfeiliant offeryn llinynnol neu *lyra*. Roedd y telynegion cyntaf felly yn gerddi ar fydr ac odl y gellid eu canu, ond daeth yn arfer ar Dalwrn y Beirdd i dderbyn cerddi penrhydd telynegol yn ogystal - a dyna a wneuthum innau wrth feirniadu'r gystadleuaeth hon.

Daeth un ar bymtheg o gynigion i law - tipyn mwy na'r nifer a fentrodd yn 2022 sydd yn rhywbeth i'w groesawu- ond yn anffodus bu'n rhaid gollwng gwaith *Aeddan*, *Blaise*, *Ciarán* a *Tania* yn ôl allan o'r gorlan yn syth, gan nad oeddynt wedi ymateb i'r testun, na llunio telynegion chwaith. Aeth cerdd *Mali* i'w canlyn yn anffodus- er ei bod yn destunol, mae un triban yn rhy fyr i'w ystyried fel telyneg.

Roedd un ar ddeg o gerddi ar ôl felly, pedwar wedi canu'n benrydd a saith ar fydr ac odl. Gellir eu rhannu'n ddau ddsbarth a dyma air am bob un yn ei dro.

## DOSBARTH 2

*Meddyliau o bell*: Ychwanegwyd y geiriau *Yn Wengen*, *Y Swisdir* o dan y teitl, ond mae arna'i ofn nad oeddwn fawr oleuach. Ai cerdd o hiraeth yw hon am gyfeillion a ddeuai ynghyd yn Wengen ar eu gwyliau? Nid wyf yn siwr. Mae'r rhan fwyaf o'r llinellau â phum curiad ond mae'r mydryddu'n herciog mewn ambell le. Serch hynny, mae'r gerdd yn cloi â llinell ddigon tlws: 'A'r copaon dan fachlud sy'n llogi'n hir.'

*Sioned*: Tri phennill wedi'u mydryddu'n ddigon slic ac yn darlunio'r temtasiynau sy'n ysu pobl mewn clwb nos. Ond mae hon hefyd ychydig yn dywyll o ran ei ystyr weithiau, e.e. 'Anwesau yr holl lygaid/ yng ngwres mynwesu glân'. Dalied ati.

*Mali Haf*: Darlun o rywun yn ymddeol ar ôl deugain mlynedd ac yn llogi'i grysau gwyn a'i ffeils a'i docyn tymor. Rywsut roeddwn yn cael hi'n anodd i gredu'r weithred, efallai am na chawsom ni rannu yn emosiwn y foment gan y sawl oedd yn llogi'r pethau hyn. Ond hoffais y disgrifiad o'r bag lledr fel 'gwas di-rwgnach'.

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

*Ymwelydd:* Ymweliad â Stormont sydd wedi ysbrydoli'r gerdd, ac mae'n darlunio'r gobeithion gynt am yr hyn allai'r lle ei gyflawni fel ysgol Jacob. Ychydig yn llac yw'r mynegiant wedyn ond wrth droi nôl at yr adeilad gwag, mae'n cloi yn effeithiol gyda'r ddelwedd hon:

Ond ym mrig y nos  
yn un o'r ffenestri,  
gwelais un golau trydan  
fel kannwyll yn llosgi.

Hyfryd.

*Trwbadŵr:* Penillion yn darlunio cariad hiraethus (am ferch o'r enw Medi?) Nid oeddwn yn siwr am yr ymadrodd 'dy enw'n fri' ond fel arall mae'r canu'n ddigon tlws. Ond teithio a phellter yw prif thema'r pedwar pennill cyntaf a dwy linell gynta'r pennill olaf yn jerian braidd wrth gyflwyno'r testun gosodedig fel ôl nodyn braidd:

Gwell tanwydd nid oes i'm gyrru 'mlaen,  
Rhoi'i dân wna dy gariad di;

Gyda chydig o waith byddai hon yn gerdd dda - ond efallai ar destun gwahanol!

*Owain:* Darlun effeithiol o'r broses o baratoi coed tân a'r trafferth i'w gynnau, 'yna rhu'n y simne fach a'r corn yn tynnu'n braf'. Ond ni ddeallais arwyddocâd y gwreichion yn deifio'r carped, a'r awydd am hollti yn groes i'r graen. Serch hynny, dyma gerdd oedd o fewn trwch blewyn i gyrraedd y dosbarth cyntaf.

*Tomos:* Dyma bum pennill wedi'u mydryddu'n llyfn iawn a cherdd arall oedd yn agos at gyrraedd y dosbarth cyntaf. Mae'n defnyddio llosgi fel trosiad am yr angerd Cristnogol oedd mor amlwg ym 'mynwes ein cyndadau' ond bellach, 'dim ond marworyn bychan / sy'n llosgi nawr pob Sul.' Mae'n canu'n rhwydd iawn- ond pe byddai wedi tynhau y dweud byddai wedi mynd ymhellach yn y gystadleuaeth.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## DOSBARTH 1

*Di-droi'n ôl:* Dyma gerdd gynnil dros ben - rhyw ddeugain o eiriau i gyd- ond mae'r bardd hwn yn deall i'r dim sut y gall ychydig o eiriau pwrpasol awgrymu darlun llawer ehangach. Llosgi tŷ haf yw'r cefndir, neu ryw weithred debyg o ddial, a rhannwn adrenalin y sawl sydd wedi gwneud hyn:

gwaed

yn guriad

yn ei glustiau,

gwres

yn morgruga

i fyny ei gorff

gyda rhaniad y llinellau yn awgrymu rhywun yn ffoi nerth ei draed a'i wynt yn ei ddwrn. Mae rhywbeth amheuthun o ddieflig yn y disgrifiad olaf o'r llosgwr yn sychu'r petrol o'i ddwylo ar ei jîns... ac yn gwenu. Campus.

*Llais y dderwen:* Tân mewn coedwig, a'r argyfwng hinsawdd sydd wedi ysbrydoli'r gerdd hon. Fe'i hysgrifennwyd o safbwynt y Ddaear, a phryder y Ddaear am y ddifrod a wnaed i'w choedwig; ac mae'r bardd yn cyfleu hynny drwy sawl delwedd ffres a gafaelgar: 'cnul ei glecian / yn llarpio brigau'r dderwen lydan'; a 'mygu wyf yn lludw'r awyr'. Mae *Llais y dderwen* yn amlwg yn mwynhau geiriau - ond dyna'i wendid weithiau. Byddai'r gerdd yn fwy grymus petai fymryn yn fwy cryno a chynnil - ond diolch am ei neges amserol a phwysig.

*Max:* Bebelplatz yw is-deitl y soned hon a dyna ein dwyn ni nôl i'r noson yn 1933 pan losgwyd llyfrau gan y Natsïaid, ar y sgwâr hwn yn Berlin. Mae'n agor gyda phedair llinell effeithiol a phwrpasol, ond mae'r ail bedwarawd ychydig yn llacach wrth gyfeirio at y gofeb dan wyneb y sgwâr heddiw, sy'n coffau'r gyflafan. Hoffais ergyd y cwpled olaf yn fawr:

Y ffagal fflwch yn adrodd hanner stori:

er gwaetha'r gwres, syniadau ddim yn llosgi.

ond teimlwn serch hynny fod angen berf arno.

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

*Poethgoed*: Dyma delynegwr profiadol a'i ddewis o fesur yn ein hatgoffa o Robert Williams Parry (fel y gyfeiriadaeth yn yr ail linell: 'a llwch y caets yn wyn') Cana i dranc y cymoedd glo, gyda'r ddau bennill cyntaf yn darlunio'n dyner y cyfnod a fu; yna mae'r ddau bennill olaf yn ein bwrw'n ddi-sentiment i'r dwthwn hwn. Crafog iawn yw'r cwpled ' ar ddwylo otomatig / ni welir glas y graith' Ond wrth geisio cyfleu dyfodiad ffurfiau newydd ar ynni yn y pennill olaf, doeddwn i ddim mor siwr o'r ddelwedd, 'fe'n trydaneiddiwyd ninnau'; ac mae'r cwpled clo ychydig yn afrosgo o ran ei ryddm hefyd. Nid yw'n cloi'r pennill olaf mor diriaethol o dwt â'r cwpledi rhagorol sy'n cloi'r tri phennill cynt.

Er bod llawer i'w ganmol yng ngwaith pob un o feirdd y dosbarth cyntaf, gan *Di-droi'n ôl* y cafwyd y cyfanwaith gorau, a'i gynildeb beiddgar sy'n mynd â hi y tro hwn, gyda *Poethgoed* yn ail a *Llais y dderwen* yn drydydd.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Cystadleuaeth yr Englyn - Wcráin

### Beirniadaeth Emyr Lewis

Hoffwn ddiolch i bawb a anfonodd englyn i'r gystadleuaeth. Roedd y safon ar y cyfan yn dda. Doedd dim un englyn sâl. Ni chanfyddais yr un gwall cynganeddol, sy'n dyst i gryfder y grefft o gerdd dafod yn ein prifddinas. Rwyf wedi gosod yr englynion mewn dau ddsbarth yn nhrefn yr wyddor: dosbarth addewid a dosbarth cyrhaeddiad.

### Dosbarth addewid

Mae englynion da yn y dosbarth hwn, ond mae lle i wella neu loywi ar bob un.

**Andryi** - Englyn sy'n ddehongliad ar gynghanedd o'r gân wladgarol o Wcráin *Oi u luzi chevrona kalyna* am y planhigyn kalyna sy'n symbol o annibyniaeth Wcráin. Fe wnaed hynny'n ddigon celfydd, er bod y gair 'gwenau' (i gyfeirio at y cysyniad o 'lawenhau') heb daro deuddeg yn llwyr yn y llinell olaf.

**Baich** - Englyn sy'n mynegi'r orfodaeth ar Wcráin i ryfela er mwyn diogelu ei hun rhag Rwsia. Mae'r gynghanedd yn gywir, ond mae'r mynegiant rywfaint yn llac ('Erwau heddw yw ei rhuddin').

**Chotyry** - Englyn sy'n sarhau Arlywydd Rwsia ac yn darogan yr 'aiff ar ben crocbren Wcráin'. Trueni bod y gair Saesneg 'tyrant' (er ei dreiglo) wedi ymddangos yn y trydydd llinell, fel arall mae hwn yn englyn trawiadol.

**Dva** - Englyn sy'n ceisio cynnal delwedd estynedig yn seiliedig ar y syniad bod ymosodiad Rwsia fel tynnu corc o botel win (pefriog) ond y bydd rhaid i Arlywydd Rwsia wneud 'tro pedol gyda'r pwddin'. Yn anffodus, nid yw'r syniad wedi ei fynegi yn ddigon eglur. Mae fel pe bai y trawiad 'tan ei chorc / tân Kharkiv' wedi glynu ym mhen y bardd, a hynny wedi dod yn sail i'r englyn, ond nad oedd yn sail digon cryf.

**Efryn Parhaus** - Darlunio Rwsia fel arth a wneir yma, yn unol â thraddodiad, yn dod i ddifa. Ceir cyfeiriad trawiadol at yr holodomor (y newyn mawr yn Wcráin a achoswyd gan Stalin) yn y llinell 'dwyn cnwd yd ein cyndadau', ond yn anffodus mae'r llinell olaf yn wan: 'ogo'i safn sy'n agosáu'. Mae yma gymysgu delweddau anffodus.

**Marianna Vyshemirsky** - Englyn sy'n cychwyn yn gryf 'Yma'n y Donbas mae'n danbaid', ac yn gorffen yn gryf 'Unbennaeth teyrn heb enaid'. Yn anffodus,

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

mae'r ystyr a'r gystrawen wedi colli eu ffordd rywsut rhwng y ddwy linell ardderchog yma, ac mae hynny'n gwanhau'r englyn yn sylweddol.

**Try** - Dweud syml am y dynged scatolegol o boenus sy'n aros 'cadfridog sy'n rhoi saliwt i Putin'. Fe welwch mai '-in' yw'r brif odl. Ni ddwedaf fwy.

**Y gost** - Mae'r ddelwedd o Rwsia / Putin fel 'heliwr / am ladd hil ei gefndryd' yn drawiadol, ond yn anffodus nid yw mynegiant na chystrawen gweddill yr englyn yn codi i'r un tir uchel.

### Dosbarth Cyrhaeddiad

**Cipolwg** - Englyn sy'n cynnwys cynganeddu cryf, gyda neges y daw adeg 'cyfiawnderau' yn y man. Efallai y byddai 'i'r' wedi bod yn well nag 'yr' yn yr ail linell, ond mân-feirniadaeth yw honno.

**Cynog** - Englyn cynnil ac awgrymog. Credaf mai ymson gan berson yn Wcráin nad yw'n ymladd ym mlaen y gad sydd yma, yn mynegi solidariaeth gyda'r milwyr. Er bod brethyn wedi cynhesu'r person hwnnw neithiwr, mae'n gwybod fod 'yr aberth o berthyn / yn rhoi ias i'r oriau hyn'.

**Odyn** - Mae'n cychwyn gyda'r paladr iasol hwn: 'Fe'u deffrwyd i fwydo offrwm i Putin / fel Stalin erstalwm'. Dyma gyfeirio at realiti bomio Rwsia gyda'r nos yn Wcráin yn gyfochrog ag erchyllterau Stalin. Mae'n gorffen gyda gwirionedd wedi ei fynegi'n gryf ar gynghanedd; 'cosbi'n drwm / mae Rwsia, heb ddim rheswm'. Er bod rheswm wedi ei grybwyll sef swcro ego a mynegi dicter unigolyn creulon a phenderfynol ('bwydo offrwm i Putin') dyw hynny ddim yn 'rheswm' chwaith. Mae'r syniad o 'gosbi' yn atgyfnerthu'r seicoleg wydroëdig sydd ar waith yn y rhyfel hwn. Mae symlrwydd y llinell olaf a'r defnydd o'r gair 'erstalwm' yn rhoi rhyw arlliw lafar i'r englyn sy'n gweddu'n llwyr i'r mynegiant croyw o ffieiddio a geir yma.

**Llwydyn** - Mae'r englyn yma yn cychwyn mewn ffordd ddigon cyfarwydd 'Hen faedd a ddaeth a'i fyddin' ond yn gorffen yn drawiadol: 'draw acw'n bell o'r drycin / un sgrôl a'i cliria o'r sgrîn.' Dyma ergyd i'n tuedd i ymagweddu'n voyeuristaidd tuag at rhyfel sy'n ddigon pell i ffwrdd i ni fedru ei osgoi pan na fo'n gyfleus i ni ymwneud ag ef.

**Tynged** - Englyn uniongyrchol wedi ei gynganeddu'n gryf a'i fynegi'n groyw yn canmol y rhai sy'n parhau i fyw yn olion dinistr dinasoedd Wcráin: 'a byw loes yn rwbel hon / wna'r dewraf o'i brodorion'.



## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

Mater o chwaeth yw hi i raddau helaeth pa englynion sy'n dod i'r brig, ond fel hyn dwi'n ei gweld hi:

Gwobr gyntaf: **Odyn**

Ail wobr: Cynog

Trydydd wobr: Llwydyn

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Cyfansoddi emyn

BEIRNIADAETH IFOR AP GLYN

Cyn mynd ati i gloriannu'r gystadleuaeth hon, trois at feirniadaeth feistrolgar y diweddar Eirian Davies ar gystadleuaeth yr emyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1989. Dyma'i eiriau agoriadol:

'Diau i emynau gael eu canu yn y lle cyntaf i gario gwirioneddau crefyddol. Y neges oedd yn bwysig ac eilbeth oedd y mynegiant. Rhyw gynorthwyon clywadwy oedd pethau fel odlau a mydrau. Fel y gall rhigwm fod yn gymorth wrth i blant bach ddysgu ieithoedd daear, felly y gobeithid y gallai plant y Ffydd, trwy gyfrwng emyn, ddysgu iaith y nef.'

Ac yn ôl y ffon fesur honno, nid oes amheuaeth fod beirdd y gystadleuaeth hon i gyd wedi llwyddo. Nid oes neb yn y dwthwn hwn yn mynd ati i ysgrifennu emyn heb fod ganddynt argyhoeddiad Cristnogol, ac mae'r beirdd i gyd wedi cynhyrchu gwaith a allai fod at iws gwlad yn ein heglwysi, gwaith sy'n cyflwyno 'iaith y nef' i 'blant y Ffydd'. Dyma pam nad wyf am feirniadu'r emynau unigol, o barch at yr argyhoeddiad hwnnw, ond yn hytrach gynnig rhyw drosolwg mwy cyffredinol ar y gystadleuaeth.

Roedd 16 o feirdd wedi cynnig am y wobr a phob un yn gallu mydryddu'n rheolaidd, a chreu gwaith canadwy. Diolch felly iddynt am anfon gwaith mor gyson ei safon i'r gystadleuaeth; roedd hi'n amlwg fod pob un wedi trwytho'i hun yn ein traddodiad emynyddol. Ond ow! dyma fy mhroblem fel beirniad. Roedd pob cynnig **mor** draddodiadol. Gwn nad oeddym wedi gofyn yn benodol am emynau 'newydd' na 'chyfoes' ond gellid credu'n hawd fod y rhan fwyaf o'r cynigion wedi eu hysgrifennu yn 1823 yn hytrach na 2023.

Ers hanner canrif a mwy, mae beirdd yn gwgu ar yr hen arfer o roi'r ansoddair o flaen yr enw i helpu'r mydr, ond yn y gystadleuaeth hon cafwyd sawl enghraifft o 'erchyll loes', 'tywyll fyd' ac yn y blaen. Perthyn i'r gorffennol hefyd mae ffurfiau fel 'in' (= i ni) ac 'im' (= i mi) ond eto roeddynt yn frith drwy'r cynigion a ddaeth i law (gyda sawl un yn eu camsillafu'n 'i'n' ac 'i'm', sydd o bosib ond yn tanlinellu'r ffaith mai ffurfiau dieithr ydynt mewn gwirionedd, sy

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

ddim yn rhan o iaith bob dydd y beirdd.) Nid ydym yn siarad fel hyn wrth bregethu heddiw, nac wrth weddio chwaith; pam gwneud wrth lunio emyn?

Nid ple yn erbyn parhau i ganu'r hen ffefrynau mo hyn, cofiwch. Nid oes gwadu fod emynau ddoe yn dal i 'siarad' hefo ni heddiw, a'u geiriau a'u tonau yn gallu cyffwrdd ynom o hyd. (Ac waeth i minnau gyfaddef ddim, dwi'n hoff iawn o emynau clasurol ein traddodiad ac yn mwynhau canu'u harmonïau cyfoethog - yn fwy na llawer o'n hemynau mwy modern, symlach eu trefniannau! Felly maddeuer imi os ymddangosaf yn anghyson. Gwelaf a gwerthfawrocaf atyniad yr hen ffurfiau.)

Nid oes dim o'i le hefo defnyddio patrymau mydryddol (a thonau) ddoe ar gyfer emynau heddiw - dim ond bod ffresni a newydd-deb yn y dweud. Mae mesur yr englyn heb newid ers canrifoedd, ond gwahanol iawn eu dweud yw englynion heddiw, o'u cymharu â rhai o'r canrifoedd cynt. 'Yr hen ddweud o'r newydd yw', fel mae arwyddair Barddas yn ei mynnu hi. Ac mae hynny'n berthnasol i'r Cristion a fynno gweld twf yn ein heglwysi, yn hytrach na chrebachu. Pobl flaengar oedd cenhedlaeth Williams Pantycelyn, nid pobl draddoddiadol, yn rhannu hen wirioneddau mewn ffyrdd newydd. Nid iaith hen ffasiwn a ddewisent i ddysgu 'iaith y nef' i blant y Ffydd, yn eu cyfnod nhw, a siawns na ddylem ninnau chwaith.

Diolch i bawb wnaeth gystadlu - *Alltlywd, Dal i Gredu, Mererid* (emyn cyfoes ac emyn i lawenydd), *Dilys, Ben, Fflur, Tomos, Lowri, Bryn, Phillip, Ruth, Hafan, Pabo, Seiriol* a *Tysilio*. 'Mawr yw eich gwobr yn y nefoedd' ond rhaid dewis enillydd yma ar y llawr. Troes yn ôl at Eirian Davies:

'pan dry rhigwm yn gerdd, gall geiriau fagu ystyr helaethach, gan ennyn syniadau cyfoethocach na dim y gallai datganiadau diwinyddol moel obeithio'u cyfleu. (...) Gall penillion emynydd, yn aml iawn, ddatguddio mwy o Dduw inni nag y gall traethodau diwinydd.'

Pwy felly oedd wedi llwyddo troi diwinyddiaeth yn gân? Hoffais naws y canu plygain oedd gan *Dal i gredu*; a hoffais y ddelwedd o daith pechadur gan *Pabo*; ac roedd y ddau hyn yn agos at y brig. Serch hynny, y fflachiadau o wreiddioldeb a oedd yng ngwaith y tri canlynol a wnaeth gydio ynof fwyaf.

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

Canu i'r tymhorau wnaeth *Hafan*; efallai y byddai cychwyn gyda 'carthen wen' y gaeaf a gorffen hefo diolchgarwch yr hydref wedi gweithio'n well, ond dyma emyn crwn a theimladwy.

Roedd tinc mwy cyfoes i emyn Seiriol a hoffais y ddelwedd o'r 'harbwr clyd, cysgodol'. Llawenydd y gwanwyn oedd gan Mererid a hithau wedi plethu'r swper olaf a'r atgyfodiad yn gynnil i'w delweddau o'r ddaear yn deffro o'i chwsg gaeafol. Dyfarnaf y wobr gyntaf i *Mererid*, yr ail i *Seiriol* a'r drydedd i *Hafan*.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Y Fedal Ryddiaith

### Beirniadaethau Glenys M Roberts

*Darn o ryddiaith heb fod dros 2,000 o eiriau – ‘Dianc’*

Cefais foddhad o ddarllen gwaith pob un o’r wyth ymgeisydd. Mae ‘na lenorion yng Nghaerdydd – neu, o leia, mae ‘na lenorion yn cael eu denu i gystadlu yn Eisteddfod Caerdydd! Mae’r gwaith yn adlewyrchu sut y mae gwahanol ardaloedd Cymru yn cyfoethogi bywyd diwylliannol y brifddinas, gan fod ôl tafodieithoedd gwahanol, gan gynnwys rhai Gwynedd a Cheredigion, ar y cynhyrchion.

Cafwyd saith stori fer ac un ysgrif, a dyma sylwadau arnynt yn y drefn y’u darllenwyd.

### Coch Bach y Bala

Stori fer yw ‘Cyw a fegir yn uffern’ sy’n cynnwys llawer o ddeialog ystwyth a bywiog sy’n aml yn darllen fel sgript drama. Mae’r awdur yn rhyddieithwr profiadol a hyderus a’i feistrolaeth ar y dafodiaith ogleddol a ddefnyddia yn gryf (er bod y gair ‘carcus’ yn taro’n chwithig – dylanwad *Pobol y Cwm*, beryg).

Mae hefyd yn feistr ar ymatal, a chynlluniodd ei stori fel bod y darllenydd yn gaeth i’r dudalen hyd y gair olaf. Mae’n dechrau â chwestiwn athronyddol sy’n cyfleu natur y prif gymeriad i’r dim, ac yna’n gwibio yn ôl ac ymlaen rhwng y presennol ac atgofion y storiwr.

Rhaid ei longyfarch hefyd ar fod yn gwbl destunol mewn sawl ffordd – awydd y prif gymeriad i ddianc; thema cyffuriau, sef ffordd o ddianc; a’r dianc terfynol ar ddiwedd y stori.

Byddwn yn awgrymu bod eisiau rhoi sylw i’r atalnodi, ond llongyfarchiadau ar ddarn cryf o ysgrifennu sy’n argyhoeddi’n llwyr.

### Diwrnod Glawog

‘Dianc’ - stori fer am weddw sy’n camu’n betrus tuag at ddianc rhag ei hunigrwydd drwy ymuno â chriw sy’n cerdded yn wythnosol yng nghyffiniau Castell Coch. Mae’r iaith a’r diwyg a’r atalnodi yn ddilychwin a’r naratif yn llithrig, er bod y cynnwys braidd yn ddi-fflach, efallai. ‘Am y tywydd, gorau tewi’, meddai yn un man! Ro’n i’n teimlo bod diffyg cynildeb yn y disgrifiad o farwolaeth y gŵr, a byddwn wedi hoffi diweddglo cryfach. Ond yn sicr, mae

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

gan yr awdur ddawn lenyddol a llwyddodd i fynd dan groen unigrwydd y prif gymeriad.

### Gwersyllwr

‘Dianc’ – stori ddyfeisgar am rywun â gwybodaeth o’r byd meddygol/nysio yn cael damwain ar glogwyn ger Llangrannog. Yn ystod yr ‘awr euraidd’ wrth aros am gymorth mae’n dilyn ei chyngor meddygol ei hun i aros mor llonydd â phosib trwy ddianc i fyd ei hatgofion. Mae hyn yn gwbl destunol, wrth gwrs, ac yn gyfle iddi ddilyn sawl trywydd. Mae angen ychydig o dacluso ar yr orgraff a’r atalnodi ond mae’r iaith yn llithrig a rhai o’r ymadroddion idiomatig a ddefnyddir yn hyfryd, e.e. ‘Mwy oedd y braw na’r briw’.

### Hillman Minx

Ysgrif yw ‘Dianc’ y tro yma, am yr A470. Os ydw i’n cofio’n iawn, bu’r A470 yn destun cystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddar, ta waeth am hynny – ond mae angen diweddar un rhan, sy’n awgrymu bod Eisteddfod Ceredigion yn Nhregaron eto i ddod.

Ymweld â threfi a mannau hanesyddol ar y daith o Landudno i Fae Caerdydd y mae’r awdur, yn hytrach na disgrifio’r golygfeydd a’r ffordd ei hun. Mae’r awdur yn wladgarwr sy’n gallu gwerthu hynodion trefi Cymru i’w ddarllenwyr. Efallai fod Llandudno’n cael gormod o sylw, a threfi fel Dolgellau ac Aberhonddu’n cael eu hesgeuluso’n llwyr. Mae angen tacluso’r orgraff – does dim acen grom ar Taf, er enghraifft - ond mae hon yn ysgrif ddifyr.

### Ifan Hendri

‘Byd o les’ – stori fer â theitl eironig am gyn-filwr sydd â’i fywyd yn deilchion yn sgil ei brofiadau yn y fyddin, ac sy’n byw ar y stryd ar alcohol a chyffuriau. Mae’r awdur yn llenor profiadol a’i adnoddau ieithyddol yn ddi-ben-draw. Mae ganddo ddeialog rymus – ac mae hyd yn oed yn llwyddo i ddefnyddio diffyg atalnodi fel erfyn i gyfleu llif iaith. Mae’n agos at y brig. Efallai mai eiddo Ifan Hendri yw llinell orau’r gystadleuaeth – ‘Dim ond soldiwrs sy wedi marw sy’n gweld diwedd rhyfel’.

### Karl

‘Dianc’ – stori neu nofelig ar ffurf naw o benodau byrion am gyn-aelod o fyddin Gwlad Pwyl sydd dan amheuaeth (gan ei wraig ac eraill) o droseddau rhyfel yn erbyn Iddewon ym Melarus. Dyma ysgrifennu cynnil ac effeithiol gan lenor

## EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

profiadol sy'n gwybod sut i brocio chwilfrydedd y darllenydd gan ei adael ar y diwedd yn llawn cwestiynau. Mae Karl hefyd yn agos at frig y gystadleuaeth.

### Nyrs

'Dianc' – stori am ddynes sydd ar daith agos iawn at angau, efallai oherwydd Covid, a'i salwch yn gwneud iddi ddychmygu'n ffwndrus. Roedd yn ddifyr bod yng nghwmni dychymyg byrlymus a chreadigol yr awdur ar y daith, ac yn dda cael cyrraedd y pen-draw'n ddiogel. Mae hwn yn gofnod cymdeithasol perthnasol i'r cyfnod diweddar hwn.

### Teithiwr

'Dianc' - stori fer am hen dŷ Tuduraidd a bywyd hen wŷr a gwraig a fu ynghlwm â'r lle ers blynyddoedd lawer. Dyma ysgrifennu llithrig gan awdur sy'n gwybod sut i greu awyrgylch tywyll ac awgrymog. Daw cwpl ifanc i weld y tŷ hwn sy'n denu ac yn bygwth yr un pryd, a gadewir i'r darllenydd ddychmygu beth fydd ffawd y ddau – ai nhw fydd yn mynd â Hendre Dywyll ymlaen i gam nesaf ei fodolaeth? A fydd y lle yn garedig iddynt, neu'n eu harteithio a'u dinistrio fel y gwnaeth yn ddiamau i rywrai yn y gorffennol tywyll? Mae Teithiwr hefyd yn bur agos at y brig.

**Coch Bach y Bala** oedd awdur gorau'r gystadleuaeth ym marn fy nghydfairniad a minnau, ac roedd sawl un arall yn curo ar y drws. Ar ôl trafod cytunwyd i osod Diwrnod Glawog yn ail ac Ifan Hendri yn drydydd, gan ddiolch i'r wyth ymgeisydd am roi difyrrwch inni ar nosweithiau tywyll o aeaf.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Llên meicro

*Heb fod dros 500 o eiriau – ‘Drwy’r ffenest’*

Mae un darn o 500 o eiriau i'w weld yn hir i mi mewn cystadleuaeth llên meicro ond, wrth gwrs, byddai rhyddid i'r ymgeiswyr gynnig sawl darn a chyfanswm y geiriau yn 500 gair. Nid dyna a wnaeth y tri ymgeisydd. Cynildeb ac ysgrifennu awgrymog a ddisgwyliwn, yn hytrach na naratif neu gyfleu ffeithiau moel.

## Cati

Darn 498 o eiriau yw ‘Cwlwm’ am berthynas rhwng dwy, ac un o'r ddwy yn cael ei gwarchod gan y llall yn ei brwydr yn erbyn canser, hyd y diwedd eithaf pan fydd rhaid i aelod o'r teulu ddod i'w hadnabod 'o ochr arall ffenest'. Mae ambell i wall cystrawen, ond os mai dysgwr yw'r awdur, mae i'w longyfarch ar lwyddo i gyfleu'r stori â chynildeb a sensitifrwydd.

## Lliw

'Drwy'r ffenest'. Ffenestri'r rhaglen 'Play School' ers talwm sydd wedi ysgogi'r awdur hwn – y cylch yn mynd â hi (?) yn ôl i'w phlentyndod, y sgwâr yn ei hatgoffa o wahanol sgwariau a phiazzas yr ymwelodd â nhw ledled y byd, a lliwiau ffenestr yr enfys i gyd yn cynrychioli gwahanol brofiadau. Byddwn wedi hoffi mwy o awgrymu cynnil ond diolch am ddehongliad diddorol o'r testun.

## Mot

'Drwy'r ffenest'. Ymson â chyfaill agos neu gymar sydd gan yr awdur hwn. Byddai wedi bod yn well defnyddio ffugenw gwahanol, fel mai dim ond ar y diwedd y byddem yn dod i ddeall mai cyfaill pedair-coes oedd hwn – byddai tristwch y diweddglo'n fwy effeithiol wedyn. A yw'n destunol? Efallai mai gweld pethau drwy lygaid ei gyfaill y mae'r awdur, ac mai dyna yw'r ffenestr. Beth bynnag am hynny, mae ysgrifennu ymatalgar Mot yn ennill y wobr iddo.

## **Enillydd - Mot**



# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Adolygiad

*Adolygiad o Mori gan Ffion Dafis. Heb fod dros 1,000 o eiriau. Cystadleuaeth i rai dros 16 oed.*

*Mori*, nofel Ffion Dafis am wraig ifanc â gorffennol anodd, diserch, oedd prif enillydd Llyfr y Flwyddyn 2022.

Pig yr alarch oedd yr unig ymgeisydd ac mae ei adolygiad yn un onest sy'n cyfaddef nad yw wedi 'gallu uniaethu â Mori gan fy mod heb gael unrhyw brofiad tebyg iddi'. Dw i ddim yn credu bod hyn yn feirniadaeth ddilys – ni fyddech yn disgwyl bod wedi byw mewn wyrchw er mwyn gallu uniaethu ag Oliver Dickens, ac yn sicr ni fyddai disgwyl ichi fod wedi eich creu o flodau er mwyn uniaethu â Blodeuwedd Saunders Lewis. Mae Mori/Morfudd yn ferch a gafodd ei hesgeuluso a'i cham-drin gan ei mam, a'i hecsploetio a'i rheoli gan ei gŵr, ac mae deall effaith hynny yn allwedd i ddeall ei chymeriad.

Er hynny, llwyddodd yr adolygydd i werthfawrogi llawer am y nofel ac i gyfleu rhai o'r themâu tywyll, yn ogystal â rhwyddineb y naratif ac amrediad yr emosiynau – o'r gorffwylledd i'r tynerwch. Mae angen iddo feistroli rhai cystrawennau gan fod rhai o'i ymadroddion yn dywyll, ond mae iaith yr adolygiad yn llifo'n ddigon rhwydd ar y cyfan. Mae'n haeddu'r wobr.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Tlws yr Ifanc

*'Plannu'. Dyfernir y Tlws am waith llenyddol. Gall fod yn gerdd gaeth neu rydd neu'n ddarn o ryddiaith. Yn agored i unigolion 25 oed ac iau yn unig.*

Pedwar darn rhyddiaith ac un gerdd a dderbyniwyd, a dyma sylwadau arnynt yn y drefn y'u darllenais:

### Briallen

Mae'r stori hon yn ymwneud â thema bwysig, sef y ffordd y mae diwylliant niweidiol yn cael ei blannu ym meddylfryd bechgyn yn eu harddegau fel mai eu huchelgais yw ecsbloetio merched yn rhywiol ac yn gyhoeddus mewn ffordd sy'n dinistrio bywydau a hapusrwydd y merched hynny. Fel nain i un wyres a phedwar o wyrion, rwy'n mawr obeithio bod y stori'n cyffredinoli'n eithafol, ond mae'n sicr yn destun y dylid ei wyntyllu.

Gellid tynhau llawer ar y naratif, o leiaf hyd nes y down at ochr Non i'r stori. O hynny ymlaen, mae'r storïwr yn llwyddo i gyfleu teimladau'n effeithiol.

Basai hi'n ddoeth, ac yn weddol hawdd, defnyddio gwiriwr sillafu er mwyn tacluso'r iaith.

### Lynfa

#### 'Clymau'

Dw i ddim yn siŵr pa mor berthnasol yw'r gwaith hwn i'r testun gosod, ond mae'n ddarn cryf o ryddiaith am ferch 25 oed sy'n brwydro yn erbyn canser ac yn galaru ar ôl cael codi ei dwy fron.

Er bod ymadroddion anodd eu deall, ac er bod angen golygu a thacluso cryn dipyn, mae yma gryfderau amlwg. Er enghraifft, mae'r ymdeimlad o unigrwydd y salwch a'r gwacter yn cael ei gyfleu'n bwerus – 'Ro'n i'n ffoadures unig, yn istadd mewn dingi, yn arnofio yng nghanol anialwch o fôr.'

Cawn ein cyffwrdd gan ddoethineb rhyfedd o feddwl mor ifanc yw'r awdur - 'Dydy cydymdeimlad ddim yn bodoli heb brofiad'. Dotiais hefyd at nifer o ddelweddau llachar.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Taliesin

'Chez nous'

Prif thema'r gwaith hwn yw'r ffordd y mae llwyddiant tîm pêl-droed Cymru wedi uno'r genedl, yn bobl o bob lliw ac iaith.

Cyfres o ddarnau byrion sydd yma wedi eu huno gan fframwaith y gemau a arweiniodd at Gymru'n mynd i Gwpan y Byd yn Qatar. Mae'r fframwaith hwn yn ddyfais effeithiol, a cheir digon o gyfeiriadau at 'blannu' i wneud y gwaith yn destunol. Triawd o Gymry Cymraeg ifanc yw'r cymeriadau ac un ohonynt yn fachgen du. Wrth iddynt ddod yn gyfeillion wrth ddilyn tîm Cymru ceir ystyr arbennig i'r ymadrodd 'Cymru'n un'. Mae'r awdur yn ymdrin â'r thema yn sensitif ac aeddfed ac wrth inni ddilyn y stori cawn nifer o ddarluniau synhwyrdd gan y llenor addawol hwn.

Thema arall yw 'gofod' pobl. Caiff lolo, y bachgen du, ei groesawu i 'ofod' gweddill y chweched dosbarth oherwydd iddo fentro cymryd y cam cyntaf a datgan ei ddiddordeb yn nhîm Cymru. Mae gan yr awdur ddiddordeb athronyddol mewn iaith fel y gwelwn wrth iddo drafod arwyddocâd yr ymadrodd 'chez nous' – ein gofod ni - yn ogystal â geiriau eraill. Mae ganddo hefyd ffordd wreiddiol o ysgrifennu. Ymhlith yr ymadroddion y dotiais atynt oedd ei ffordd o gyfeirio at dafodiaith – 'ambell un â melfed ardal tu-allan-i'r-fro-Gymraeg ar eu hiaith'.

## Mair ferch Efa

Cerdd – a braf cael cerdd – am Sara, merch Llethr Neuadd, a elwir 'The Welsh Fasting Girl'. Cerdd syml yw hi sy'n rhoi darlun credadwy o ferch ifanc a oedd, fe awgrymir, yn cael ei chamddefnyddio. Mae'r awdur yn llwyddo i ennyn ein cydymdeimlad drwy gyfleu trachwant y rhai oedd yn mynnu bod Sara yn fath o 'wyrth' a oedd yn byw heb fwyd na diod, er mwyn elwa arni. Ceir defnydd da o ailadrodd. Yn anffodus, wela i ddim cysylltiad â'r testun gosod, 'Plannu', er y byddai wedi bod yn weddol hawdd gwneud y gerdd yn berthnasol i'r testun. Ond mae'r awdur yn fardd addawol.

# EISTEDDFOD CAERDYDD 2023

## Wini

'Llanw a thrai' yw teitl ysgrif Wini, sy'n ymson aeddfed am ddod i delerau, neu fethu â dod i delerau, â galaru. Wrth iddi ddod i'r casgliad mai'r unig ffordd yw 'cymryd munud ar ben dy hun', gan eistedd, er enghraifft, ar wal uwch glan y môr a gwylio symudiad y tonnau, ysgrifenna ddarnau hynod sensitif ac effeithiol, yn enwedig wrth iddi gael ei hatgoffa gan farwolaeth Elizabeth II am farw ei mam-gu ei hun yn 96 oed bedair blynedd ynghynt, a hithau'n fenyw a oedd wedi colli plentyn dyflwydd oed, ac yn gwybod popeth am ddimensiwn eithaf galar. Mae'r ffordd y mae Wini'n dychwelyd dro ar ôl tro at y wal uwchben y môr a symudiadau cyson y llanw yn dangos mesur o grefft wrth iddi geisio amgyffred poen anesgor galar am blentyn.

Yn anffodus, nid yw Wini wedi ysgrifennu ar y testun 'Plannu', neu byddai wedi bod yn cystadlu'n gryf am y Tlws eleni.

Llongyfarchiadau i'r pum cystadleuydd, ac yn arbennig i Taliesin, enillydd Tlws yr Ifanc Eisteddfod Caerdydd 2023.

## **Enillydd - Taliesin**